19th December 2018 **Llannon Community Council**

Council Meeting

Minute no. 212 – Members Present

Councillors:

E Dole
P C Edwards
K Thomas
N Holman
D Jones
D Snaith
P Williams
L Williams
G Jones
M Jones
E James
L M Davies

Chairperson Councillor E James presided over the meeting

Also present: The Clerk and Community Development Officer/Responsible Finance Officer

Minute no. 213 – Apologies for Absence
Apologies for absence were received by Cllrs J Brace and R Thomas.

Minute no. 214 – Declarations of Interest
Declarations of Interest were received from Councillor D Jones as she is a County Councillor and sits on the Planning Committee and Councillor E Dole as Leader of Carmarthenshire County Council.

Minute no. 215 – Financial Regulations
The RFO provided members with a clean copy of the Financial Regulations as amended and approved at the previous Council meeting for their reference.
Resolved to approve the amended Financial Regulations.

Minute no. 216 – Signing of the Minutes – 21st November 2018 Council Meeting
Resolved that the minutes of the above meeting, having been previously circulated, be accepted as read, confirmed and signed as a true and legal record of the matters transacted.
Reason – to adhere to the requirements of the Local Government Act 1972 Sch 12, para 41 (1) and (4) and section 99.

Minute no. 217 – Matters Arising
Minute no. 192 - Adopt a Kiosk
The Clerk reported that Western Power has agreed to provide the PME Earthing to the telephone kiosks and the work to the kiosk at Tumble has been completed.

Cyfarfod y Cyngor

Cofnod rhif 212 – Aelodau'n Bresennol

Cynghorwyr:

E Dole
P C Edwards
K Thomas
N Holman
D Jones
D Snaith
P Williams
L Williams
G Jones
M Jones
E James
L M Davies

Yr Cadeirydd, y Cynghorydd E James, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod

Hefyd yn bresennol: Y Clerc a'r Swyddog Datblygu Cymunedol (SDC)/ Swyddog Cyllid Cyfrifol (SCC**).**

Cofnod rhif 213 – Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr J Brace a R Thomas.

Cofnod rhif 214 – Datgan Buddiant
Cafwyd datganiadau o fuddiant gan y Cynghorydd D Jones gan ei bod yn Gynghorydd Sir ac yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, a'r Cynghorydd E Dole gan ei fod yn Arweinydd, Cyngor Sir Caerfyrddin.

Cofnod rhif 215 – Rheoliadau Ariannol
Derbyniodd yr aelodau gopi glân o'r Rheoliadau Ariannol fel y'u diwygiwyd a'u cymeradwy-wyd yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, er gwybodaeth. **Penderfynwyd** cymeradwyo'r Rheoliadau Ariannol diwygiedig.

Cofnod rhif 216 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor, Tachwedd 21ain 2018
Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddosbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd yn amodol ar fân newidiadau.
Rheswm – i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972
At 12, para 41 (1) a (4) ac adran 99

Cofnod rhif 217 – Materion yn Codi
Cofnod rhif 192 – Mabwysiadu Ciosg
Dywedodd y Clerc bod Western Power wedi cytuno i ddarparu'r cysylltiad daear PME i'r ciosgau ffôn, ac mae'r gwaith wedi'i gwblhau yn y ciosg yn y Tymbl.
Minute no. 195 - Singles night

Mrs Mandy Owen provided the Councillors with an update on the way that the above event is organised. It was confirmed that it is no longer a single's night but a general social event. It was noted that it may be appropriate to consider forming this group into a friendship circle.

Minute 198 - Website
The Clerk provided a report on the interview process to select a contractor to assist the council in developing a new website. It was noted that Rae Davies had been chosen as the preferred contractor and a follow up meeting to develop the site will be organised in the new year.

Minute 200 - Alternative Phone Systems
The CDO provided an update on investigations with regard to an alternative phone system for Tumble Hall. Due to his experience with this technology, it was considered prudent that Cllr Gary Jones be requested to work in partnership with the CDO in the development of the phone system.

Minute no. 210 - Improvements Tumble Hall
The Clerk reported that there had been some difficulties in the removal of the chairs to the lounge due to the discovery of both fire alarm and cctv wiring running under the chairs. It was agreed to arrange for the re-routing of the wiring in advance of any further work to this room.

Minute no. 218 – Cross Hands Bowls Pavilion
The Clerk provided a report on a meeting held on 17th December with the County Council regarding progress with matters associated with the Asset Transfer.
Resolved to note the following matters:

- The County Council has agreed to assist the Council with regard to difficulties encountered with the transfer of electricity and water supplies. This has resulted in unsatisfactory rates being available for the provision of services. The Clerk offered his thanks on behalf of the Council to Cllr E Dole for his swift action in intervening to deal with this problem which is affecting a number of organisations.
- The County Council has not yet resolved the issues with regard to the faults affecting the Cess Pit/Septic Tank. It was noted that the Clerk has reminded officers of the need for this matter to be resolved.
- There is a continuing delay with regard to the completion of the lease at this property due to there being a need for the County Council to provide a Statutory Declaration with regard to land to which the Council does not hold the deeds. The County Council is also awaiting further clarification from CISWO regarding the format of lease which can be used for this transfer. This will mean that the £35,000 payment for the refurbishment of the buildings will be delayed.

Minute no. 219 – Christmas Lights
Resolve not to proceed with the purchase of additional Christmas lights until such time as the existing lights fail. It was noted that there would be a benefit in additional strings of lights on the Cross Hands Christmas Tree.

Cofnod rhif 195 – Noson i bobl sengl

Derbyniodd y Cynghorwyr ddiweddariad gan Mrs Mandy Owen ynglyn â threfniant y digwyddiad uchod. Cafwyd cadarnhad nad yw hwn bellach yn noson ar gyfer bobl sengl ond, yn hytrach, yn ddigwyddiad cymdeithasol cyffredinol. Nodwyd efallai ei bod yn addas ystyried troi'r grŵp hwn i fod yn gylch cyfeillgarwch.

Cofnod rhif 198 - Gwefan
Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynghylch y broses cyfweld i ddewis contractwr i helpu'r Cyngor ddatblygu gwefan newydd. Nodwyd bod Rae Davies wedi'i ddewis i wneud y gwaith, a threfnir cyfarfod pellach i ddatblygu'r safle yn y flwyddyn newydd.

Cofnod rhif 200 – Systemau Ffôn Amgen
Cafwyd trosolwg gan y SDC ynghylch y gwaith o chwilio am system ffôn amgen ar gyfer Neuadd y Tymbl. Oherwydd bod ganddo brofiad o'r dechnoleg hon, ystyriwyd taw peth call fyddai gofyn i'r Cynghorydd G Jones weithio mewn partneriaeth â'r SDC i ddatblygu'r system ffôn.

Cofnod rhif 210 – Gwelliannau - Neuadd y Tymbl
Dywedodd y Clerc bod symud y cadeiriau yn y lolfa wedi achosi peth traffaerth oherwydd darganfuwyd bod wifrau'r larwn tân a'r system teledu cylch cyfyng wedi'u gosod o dan y cadeiriau. Cytunwyd trefnu bod y wifrau yn cael eu hail-gyfeirio cyn bod unrhyw waith pellach yn cael ei wneud yn yr ystafell hon.

Cofnod rhif 218 – Pafiliwn Bowlio Cross Hands
Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynghylch y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ragfyr 17eg gyda'r Cyngor Sir i weld faint o gynnydd sydd wedi bod parthed â materion Trosglwyddo Asedau. **Penderfynwyd** nodi'r materion canlynol:

- Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno i helpu'r Cyngor i ddatrys yr anawsterau a wynebwyd i drosglwyddo'r cyflenwadau trydan a dŵr. Mae hyn wedi golygu bod cyfraddau annerbyniol yn cael eu cynnig am ddarparu'r gwasanaethau hyn. Roedd y Clerc, ar ran y Cyngor, wedi estyn ei ddiolch i'r Cynghorydd E Dole am y ffordd yr oedd wedi ymyrryd yn gyflym i ddelio â'r broblem hon, problem sy'n effeithio ar nifer o fudiadau.
- Nid yw'r Cyngor Sir hyd yn hyn wedi datrys y problemau ynghylch y diffygion sy'n effeithio ar y Pydew/Tanc Carthion. Nodwyd bod y Clerc wedi atgoffa'r swyddogion bod angen datrys y broblem hon.
- Mae oedi parhaus o ran cwblhau'r brydles ar yr eiddo hwn; gan nad yw'r Cyngor Sir yn meddu ar weithredoedd am y tir bydd angen iddynt gyflwyno Datganiad Statudol. Yn ychwanegol, mae'r Cyngor Sir yn aros am eglurhad pellach oddiwrth CISWO ynghylch y math o brydles sy'n bosib ei ddefnyddio ar gyfer y trosglwyddiad hyn. Mae hyn yn golygu y bydd oedi cyn bod y Cyngor yn derbyn y swm o £35,000 i adnewyddu'r adeiladau.

Cofnod rhif 219 – Goleuadau Nadolig
Penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen â phrynu goleuadau Nadolig ychwanegol tan fod y goleuadau presennol yn methu. Nodwyd y byddai'n fuddiol gosod cadwyni ychwanegol o oleuadau ar y Goeden Nadolig yn Cross Hands.

Minute no. 220 – Signing of the Finance Committee Minutes – 4th December 2018

Resolved that the minutes of the above meeting, having been previously circulated, be accepted as read, confirmed and signed as a true and legal record of the matters transacted.
Reason – to adhere to the requirements of the Local Government Act 1972 Sch 12, para 41 (1) and (4) and section 99.

Minute no. 221 – To consider "in camera" issues upon exclusion of the press and public. (Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960
Reason for exclusion: Commercially sensitive as well as confidential personnel/staffing matters.

Minute no. 222 – Staff Pension
It was noted that the Council will need to budget for an additional contribution to the pension fund.

Minute no. 223 – Members of the Public
Resolved that the members of the public be allowed to return to the meeting.

Minute no. 224 – Committee Members
Members of the Council reported that it appears there is some uncertainty regarding the membership of the various sub-committees of the Council. **Resolved** to request the Clerk to provide a list clarifying which Councillors are on each committee.

Minute no. 225 – Finance Reports
Members of the Council received and considered the following previously circulated finance reports:

- Bank reconciliation report.
- Report on invoices for payment.
- Report on income received.
- Report on Expenditure against Budget.

The RFO provided an overview of each report and answered questions as raised by councillors.

Minute no. 226 – Budget 2019-20
The RFO provided members with a provisional report regarding the anticipated out-turned expenditure for the current financial year. This consisted of a report on current Income and Expenditure as compared to a projected year end position. Members also considered a draft projected budget for the next financial year.

Projects
Resolved that projects suggested for inclusion as expenditure in the next year include the following:

- Zoning of heating system for rooms in Tumble Hall to enable a saving in the energy costs of the Council.

Cofnod rhif 220 – Llofnodi Cofnodion y Pwyllgor Cyllid – Rhagfyr 4ydd 2018

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddosbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd yn amodol ar fân newidiadau.
Rheswm – i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972
At 12, para 41 (1) a (4) ac adran 99

Cofnod rhif 221 – I ystyried materion "yn y dirgel", ar ôl eithrio cynrychiolwyr o'r wasg ac aelodau'r cyhoedd. (Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960)

Y rheswm dros y gwaharddiad: Oherwydd natur gyfrinachol y busnes – materion sy'n fasnachol sensitif, a materion personél/staffio cyfrinachol.

Cofnod rhif 222 – Pensiwn Staff
Nodwyd bod angen i'r Cyngor neilltuo arian yn y gyllideb er mwyn gwneud cyfraniad ychwanegol i'r gronfa bensiwn.

Cofnod rhif 223 – Aelodau'r Cyhoedd
Penderfynwyd bod aelodau'r cyhoedd yn gallu ail-ymuno âr cyfarfod.

Cofnod rhif 224 – Aelodau'r Pwyllgorau
Dywedodd aelodau'r Cyngor bod peth ansicrwydd ynghylch aelodaeth amrywiol is-bwyllgorau'r Cyngor. **Penderfynwyd** gofyn i'r Clerc i lunio rhestr er mwyn egluro pa Gynghorwyr sy'n aelodau o ba bwyllgor.

Cofnod rhif 225 – Adroddiadau Ariannol
Cafwyd trosolwg gan y SCC o'r adroddiadau a ddosbarthwyd yn flaenorol, gan gynnwys y canlynol:

- Adroddiad Cysoni Banc.
- Adroddiad ynghylch yr anfonebau sydd i'w talu.
- Adroddiad yn rhestru'r incwm a dderbyniwyd
- Adroddiad yn rhestru Gwariant yn erbyn y Gyllideb.

Cafwyd trosolwg o bob adroddiad gan y SCC, ac atebodd y cwestiynau a godwyd gan y Cynghorwyr.

Cofnod rhif 226 – Y Gyllideb, 2019-20
Roedd y SCC wedi darparu adroddiad dros-dro i'r aelodau ynghylch y gwariant alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd hwn yn cynnwys adroddiad ynghylch yr Incwm a Gwariant cyfredol, o'u cymharu â'r sefyllfa diwedd blwyddyn rhagamcanol. Roedd yr aelodau hefyd wedi ystyried cyllideb ddrafft rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.
Prosiectau
Penderfynwyd bod y prosiectau a awgrymwyd i'w cynnwys fel gwariant yn y flwyddyn nesaf yn cynnwys y canlynol:

- Rhannu systemau gwresogi yr ystafelloedd unigol yn Neuadd y Tymbl fel bod modd i'r Cyngor arbed costau ynni.

- Earmarked reserve for play areas needs to prioritised.
- Repairs to the 2 memorials in particular paving slabs and increasing the area of slabs at Tumble and Cross Hands.
- Cemetery - there is a need to provide replacement panels to missing areas.
- There is a need to complete a hall inspection with regard to the wiring of the hall.

Paperless Office
It was agreed in principle to move towards a paperless office for all communications between officers and councillors. **Resolved** to purchase required IT equipment for any councillor who does not have adequate existing facilities and in particular to consider the purchase of laptops as opposed to tablets.

Resolved to convene a Finance Committee to fully consider the proposed budget prior to the next Council meeting.

Minute no. 227 – Agenda
Resolved to bring forward item 14 on the agenda in order to enable Mandy Owen to address the Council.

Minute no. 228 – Tumble Hall
The Council received Mandy Owen who enquired as to the possibility for an honorarium to be provided for the volunteers for their work throughout the year.
Resolved to provide a sum of £150 to each volunteer.

Minute no. 229 – Staff Christmas Dinner
There was a general discussion regarding the proposal for the Chairman to organise a Christmas event for the staff. It was unanimously agreed that the Council support the Chairman's action in this matter.

Minute no. 230 –Tumble Hall
a) Licensable Activity
Resolved to note that the following licensable activities were ratified by the Council.
Reason – to comply with the terms of premises license (Licensing Act 2003).

December 21st	Children's Disco
December 22nd	Boy George & Decades Band
December 31st	New Year's Eve Family Night
January 4th	Country & Western
January 10th - 13th	Pantomime

Minute no. 231 – Christmas Closure
Resolved to close down the hall over the Christmas period and grant staff 2 days additional days leave to enable this shutdown.

- Atgyweirio'r ddwy gofeb, yn enwedig y cerrig palmant ac ehangu'r ardal balmant yn y Tymbl a Cross Hands.
- Y fynwent – mae angen gosod paneli newydd yn lle y rhai sydd wedi mynd ar goll.
- Mae angen cynnal arolwg o wifriad trydanol y Neuadd.

Swyddfa ddi-bapur
Cytunwyd mewn egwyddor i symud tuag at swyddfa ddi-bapur ar gyfer yr holl gyfathrebu rhwng y swyddogion a'r Cyngor. **Penderfynwyd** prynu'r cyfarpar TG angenrheidiol i unrhyw gynghorydd nad yw'n meddu ar gyfleusterau digonol ar hyn o bryd ac, yn benodol, i ystyried prynu gliniaduron yn hytrach na thabledi.
Penderfynwyd galw cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid i ystyried y gyllideb arfaethedig cyn cyfarfod nesaf y Cyngor llawn.

Cofnod rhif 227 – Agenda
Penderfynwyd dwyn ymlaen eitem 14 yr agenda er mwyn rhoi'r cyfle i Mandy Owen annerch y Cyngor.

Cofnod rhif 228 – Neuadd y Tymbl
Anerchwyd y Cyngor gan Mandy Owen, a ofynnodd os byddai'n bosibl cynnig honoraria i'r gwirfoddolwyr am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. **Penderfynwyd** cynnig £150 i bob gwirfoddolwr.

Cofnod rhif 229 – Cinio Nadolig y Staff
Bu trafodaeth gyffredinol ynghylch y cynnig bod y Cadeirydd yn trefnu digwyddiad Nadolig i'r staff. Cytunwyd yn unfrydol bod y Cyngor yn cefnogi amcan y Cadeirydd yn y mater hwn.

Cofnod rhif 230 –Neuadd y Tymbl
a) Gweithgarwch Sydd Angen Trwydded
Penderfynwyd nodi bod y gweithgareddau canlynol sydd angen trwydded wedi cael eu cadarnhau gan y Cyngor.

Rheswm – i gydymffurfio â thelerau trwydded y safle (Deddf Trwyddedu 2003)

Rhagfyr 21ain	Disgo i blant
Rhagfyr 22ain	Boy George a'r Decades Band
Rhagfyr 31ain	Noson i'r Teulu ar Nos Calan
Ionawr 4ydd	Canu Gwlad
Ionawr 10fed – 13eg	Pantomeim

Cofnod rhif 231 – Cau dros y Nadolig
Penderfynwyd cau'r Neuadd dros y Nadolig a rhoi 2 ddiwrnod ychwanegol o wyliau i'r staff er mwyn gwneud hyn yn bosibl.

Minute no. 232 – Christmas Party - OAP Homes

There was a general discussion regarding the organisation of a Christmas party for elderly persons living in residential homes in the community which was held at Tumble Hall. It was agreed that as there had been confusion with regard to the organisation of the event, it was considered that in future any community related event should be organised through the CDO.

Minute no. 233 – Income over Christmas period
It was noted that there has been a significant amount of activity in the hall over recent weeks. A copy of the income and expenditure account for 3 events was presented to councillors showing a significant profit. Members of the Council recorded a vote of thanks to all staff for their efforts in ensuring the success of activities at the hall.

Minute no. 234 – PACT/Police Report
It was reported that there had been some difficulty in identifying an appropriate venue for holding of PACT meetings in the area. **Resolved** to offer the hall to the Police as a venue for future PACT meetings.

Minute no. 235 – NALC
The Council received correspondence from the National Association of Local Councils confirming the new pay scales for staff for 2019-2020. This was approved.

Minute no. 236 – Land Use Planning – Town and Country Planning Act
(a) Proposed Development
Resolved that the following applications be noted onto the minutes.
Reason: Members did not request that observations/objections be conveyed to the County Planning Authority in respect of the proposed developments.

S/38166 Variation of condition 5 (opening hours) of consent W/00362 - gymnasium and fitness centre, granted 27/2/2002 - to extend the opening hours by one hour from 7.00 am to open at 6.00 am. Evolution Health & Fitness Centre, Heol Nantyreos, Crosshands. Mr Matthew Williams.

S/38074 Proposed 3-bedroom dwelling house including two storey rear extension to outbuildings to the rear of 62 Carmarthen Road, Cross Hands. Mr Morgan.

S/38109 Demolition of existing single storey side extension to form pedestrian access to the rear of 62 Carmarthen Road, Llanelli. The proposals to include internal and external alterations to the existing building. Mr Morgan.

(b) Decision Notices Granted
Resolved that the following applications be noted onto the minutes.

S/37128 Two storey community centre at Tumble Park. Llannon Community Council

Cofnod rhif 232 – Parti Nadolig – Preswylwyr Cartrefi'r Henoed

Bu trafodaeth gyffredinol ynghylch parti Nadolig i'r henoed sy'n byw mewn cartrefi preswyl yn y gymuned a gynhaliwyd yn Neuadd y Tymbl. Cytunwyd bod dryswch wedi codi ynghylch trefnuiadau'r digwyddiad, ac ystyriwyd y dylid, yn y dyfodol, trefnu unrhyw ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r gymuned mewn cydweithrediad â'r SDC.

Cofnod rhif 233 – Incwm dros gyfnod y Nadolig
Nodwyd bod y Neuadd wedi gweld tipyn go lew o weithgarwch yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cyflwynwyd copi o'r cyfrif incwm a gwariant am 3 digwyddiad i'r cynghorwyr, ac roedd y rhain yn dangos elw sylweddol. Roedd aelodau'r Cyngor am gofnodi pleidlais o ddiolch i'r holl staff am eu hymdrechion i sicrhau bod y gweithgareddau yn y Neuadd yn llwyddiannus.

Cofnod rhif 234 – PACT/Adroddiad yr Heddlu
Dywedwyd bod peth anhawster yn adnabod lleoliad addas i gynnal cyfarfodydd PACT yn yr ardal. **Penderfynwyd** cynnig defnydd o'r Neuadd i'r Heddlu ar gyfer cyfarfodydd PACT yn y dyfodol.

Cofnod rhif 235 – Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol
Roedd y Cyngor wedi derbyn gohebiaeth oddiwrth Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol yn cadarnhau'r cyfraddau cyflog staff newydd ar gyfer 2019-2020. Cymeradwywyd hyn.

Cofnod rhif 236 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref
(a) Datblygiad Arfaethedig
Penderfynwyd bod y ceisiadau canlynol yn cael eu nodi yn y cofnodion.
Rheswm: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio y Sir.

S/38166 Amrywio amod 5 (oriau agor) o ganiatâd W/00362 – campfa a chanolfan ffitrwydd, a ddyfarnwyd ar 27/2/2002 – i ymestyn yr oriau agor o awr, gan agor am 6.00yb yn lle 7.00yb. Canolfan Iechyd a Ffitrwydd Evolution, Heol Nantyreos, Crosshands. Mr Matthew Williams.

S/38074 Tŷ annedd preswyl 3-ystafell wely arfaethedig, i gynnwys estyniad dau lawr i gefnlun y tai mas y tu ôl i 62 Heol Caerfyrddin, Cross Hands. Mr Morgan.

S/38109 Dymchwel yr estyniad un-llawr presennol i'r ystlyslun i ffurfio mynediad i gerddwyr i gefn 62 Heol Caerfyrddin, Cross Hands, Llanelli. Mae'r cynlluniau yn cynnwys newidiadau mewnol ac allanol i'r adeilad presennol. Mr Morgan.

(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd
Penderfynwyd cofnodi'r ceisiadau canlynol i'r cofnodion.

S/37128 Canolfan gymunedol dau-lawr ym Mharc yTymbl. Cyngor Cymuned Llannon.

(c) Decision Notices Refused
None received.

(d) Decision Notices Appealed
None received.

Minute no. 237 – CDO Report
RCDF Funding - Tumble Park
The CDO reported that a submission to the above fund had been successful by email with an extension provided for an on-line submission of one month.

Minute no. 238 – Christmas Toy Appeal
Resolved that the Council make a donation of £150 towards the above appeal. It was agreed that the Council will be prepared to act as a pick- up point for the scheme in future years.

Minute no. 239 – Well Being Act Template
The CDO provided a copy of a template as agreed by the County Council for reporting on progress made by the Council in line with the requirements of the Wellbeing Plan as adopted by the County Council and the Public Services Board. **Resolved to** adopt the template as proposed and to establish a working group to develop the Council Annual Report and Wellbeing Plan consisting of Councillors N Holman, E Dole, D Jones, L Williams, D Snaith and G Jones.

Minute no. 240 – Cross Hands School Project
The CDO provided a report on meetings held with the school with regard to the development of a local community plan including a request by the school for assistance in the development of a nature project. **Resolved** to approve the proposal for the CDO to assist in the development of a nature project.

Minute no. 241 – Improvements to the Bowls Club and Changing Rooms
Members reported on the recent site visit to the above establishment. It was agreed that:

- The toilet to the changing rooms should be made available to the public with vandal proof stainless steel toilets to be provided.

Minute no. 242 – Suspending Standing Orders
Resolved to suspend standing orders in order to continue the transaction of business beyond 9.00 pm.

Minute no. 243 – Improvements to the Bowls Club and Changing Rooms - continued

- Changing rooms should be retained for use by local teams.
- There is a need to investigate what options would be available for use of the first-floor room if developed.

Resolved that the Clerk will be requested to provide design options for the scheme. Further **resolved** to agree in principle to the Council constructing an outer masonry skin with associated renovation of roof to the bowls pavilion.

(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd
Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a wrthodwyd.

(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Apeliwyd

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a apeliwyd

Cofnod rhif 237 – Adroddiad y SDC
Arian y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Parc y Tymbl
Dywedodd y SDC bod cais i'r gronfa uchod wedi bod yn llwyddiannus drwy ebost, a bod estyniad o fis wedi'i ganiatau er mwyn cyflwyno cais ar-lein.

Cofnod rhif 238 – Apêl Teganau Nadolig
Penderfynwyd bod y Cyngor yn gwneud rhodd o £150 i'r apêl uchod. Cytunwyd bod y Cyngor yn barod i weithredu yn y dyfodol fel man codi rhoddion i'r cynllun.

Cofnod rhif 239 – Templed – y Ddeddf Llesiant
Cyflwynodd y SDC copi o dempled a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir i'w ddefnyddio i adrodd ar y cynnydd a wnelir gan y Cyngor Cymuned wrth iddo weithredu yn ôl gofynion y Cynllun Llesiant, a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. **Penderfynwyd** mabwysiadu'r templed arfaethedig, ac i sefydlu gweithgor i ddatblygu Adroddiad Blynyddol y Cyngor a'r Cynllun Llesiant. Bydd y y gweithgor yn cynnwys y Cynghorwyr N Holman, E Dole, D Jones, L Williams, D Snaith a G Jones.

Cofnod rhif 240 – Prosiect Ysgol Cross Hands

Cafwyd adroddiad gan y SDC ynghylch cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda'r ysgol ynglyn â llunio cynllun datblygu lleol, gan gynnwys cais gan yr ysgol i ddatblygu prosiect natur. **Penderfynwyd** cymerawyo'r cynnig fel bod y SDC yn gallu helpu iddatblygu prosiect natur.

Cofnod rhif 241 – Gwelliannau i'r Clwb Bowlio a'r Ystafelloedd Newid
Cafwyd adroddiad gan yr aelodau ynghylch yr ymweliad safle diweddar i'r eiddo uchod. Cytunwyd bod:

- Y toiled yn yr ystafelloedd newid ar gael i'r cyhoedd, a bydd toiledau dur gwrthstaen sy'n gwrthsefyll fandaliaeth yn cael eu gosod yno.

Cofnod rhif 242 – Atal y Rheolau Sefydlog
Penderfynwyd atal y rheolau sefydlog fel bod modd parhau i ystyried busnes y Cyngor ar ôl 9.00 yh

Cofnod rhif 243 – Gwelliannau i'r Clwb Bowlio a'r Ystafelloedd Newid - parhad
- Bydd yr ystafelloedd newid yn cael eu cadw at ddefnydd timau lleol.
- Mae angen ymchwilio i'r opsiynau a fyddai ar gael pe byddai'r ystafell ar y llawr cyntaf yn cael ei ddatblygu.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc i ddarparu cynlluniau amrwyiol ar gyfer y cynllun. Yn ychwanegol, **penderfynwyd** cytuno mewn egwyddor bod y Cyngor yn adeiladu wal gerrig allanol, ac yn adfer to y pafiliwn bowlio.

Minute no. 244 – County Councillor Report
Councillor E Dole reported on the following matters:

- A meeting had been arranged to resolve the electricity problems with the Council, Rugby & Football clubs.

- A person in Ravelston Court wishes to purchase land to the rear of the property to extend their garden. The Council is currently approaching adjacent properties to establish whether all 5 houses in the area will work together. The County Council has agreed to take back 80 staff onto the County Payroll in the New Year as a result of the financial problems of Allied Healthcare.
- Grugos Woods - The campaign by local people to Natural Resources Wales is continuing regarding the quality of the construction materials utilised at this site.
- The problem regarding knotweed at Heol Bryngwilli is ongoing; however, this will be a matter for private land owners to resolve.

Cllr D Jones gave the following report:

- There are site visits planned at Heol Morlais, Llannon regarding the bollards.
- The problem of parking on pavements of Cross Hands is being investigated.
- There is a continuing problem at Heol Bethania of flooding on the lane.

Minute no. 245 – Training- One Voice Wales

Councillor M Jones declared an interest in attending the following training sessions:

- 20th March Module 7 Health and Safety
- 21st March Module 5 Council meetings.

It was agreed to approve attendance at both sessions.

Minute no. 246 - General Correspondence

Resolved to note the following general correspondence onto the minutes: -

Writer	Subject
Meirion Owen	Request for financial assistance for the Welsh National Sheep Dog Trials
Ebenezer chapel	Request for financial assistance
Welsh Government	Changes in Local Government 137 spending
Carmarthenshire County Council	Notification of charges
Carmarthenshire County Council	Local development plan

Minute no. 247 - Applications for Financial Support

Resolved to offer the following organisations/individuals a donation in accordance with its powers under Section 137 of the LGA 1972, which in the opinion of the Council is in the interests of the area or its inhabitants and will benefit them in a manner commensurate with the expenditure:

Cemetery at Capel Y Drindod - £150.00

Cofnod rhif 244 – Adroddiad y Cynghorydd Sir

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd E Dole ynghylch y materion canlynol:

- Mae cyfarfod wedi'i drefnu i ddatrys y problemau trydan sy'n bodoli gyda'r Cyngor a'r Clybiau Rygbi a Phêl-droed.

- Mae unigolyn o Ravelston Court am brynu tir i gefn yr eiddo er mwyn ymestyn yr ardd. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor mewn trafodaethau gyda'r tai cyfagos i weld a fydd y 5 tŷ yn yr ardal yn cydweithio yn y mater.
- Oherwydd trafferthion ariannol Allied Healthcare, mae'r Cyngor Sir wedi cytuno i ail-rhestru'r 80 gweithiwr ar gyflogres y Cyngor Sir yn y flwyddyn newydd.
- Coedwig Grugos – Mae'r bobl leol yn parhau i ymgyrchu yn erbyn Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch ansawdd y deunyddiau adeiladu a ddefnyddiwyd ar y safle hwn.
- Mae'r broblem gyda chlymog Japan yn Heol Bryngwili yn dal i fodoli; serch hynny, mae hyn yn fater y bydd rhaid i dirfeddianwyr preifat ei ddatrys.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd D Jones ynghylch y materion canlynol:

- Mae ymweliad safle wedi'i drefnu i ymweld â Heol Morlais, Llannon, i archwilio'r bolardau.
- Mae'r broblem o barcio ar y pafin yn Cross Hands yn cael ei hymchwilio.
- Mae problem barhaus yn Heol Bethania ynglyn â llifogydd yn y lôn gefn.

Cofnod rhif 245 – Hyfforddiant – Un Llais Cymru

Roedd y Cynghorydd M Jones wedi datgan diddordeb mewn mynychu'r sesiynau hyfforddiant canlynol:

- Mawrth 20fed - Modiwl 7 – Iechyd a Diogelwch
- Mawrth 21ain - Modiwl 5 – Cyfarfodydd y Cyngor

Cytunwyd cymeradwyo ei fod yn mynychu'r ddwy sesiwn.

Cofnod rhif 246 – Gohebiaeth Gyffredinol

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth gyffredinol ganlynol i'r cofnodion:

Awdur	Pwnc
Meirion Owen	Cais am gymorth ariannol i Dreialon Cŵn Defaid Cenedlaethol Cymru
Capel Ebenezer	Cais am gymorth ariannol
Llywodraeth Cymru	Newidiadau i wariant adran137 Llywodraeth Leol
Cyngor Sir Caerfyrddin	Rhybudd codi tâl
Cyngor Sir Caerfyrddin	Cynllun Datblygu Lleol

Cofnod rhif 247 – Cais am Gymorth Ariannol

Penderfynwyd cynnig rhodd i'r sefydliad canlynol yn unol â phwerau'r Cyngor o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a fydd, ym marn y Cyngor, o les i'r ardal a'i thrigolion mewn ffordd sy'n gymesur â'r gwariant:

Mynwent Capel Y Drindod - £150.00

Minute no. 248 – Information Commissioner - Data Protection

The Council received a renewal reminder for the above fee. It was agreed to renew the fee.

Minute no. 249 – LDP Candidate Sites

The Council received notification that the LDP candidate sites had been published and were being consulted upon currently. **Resolved to** convene a special meeting to consider the sites proposed.

Minute no. 250 – Hall Committee
It was agreed that a Hall Committee will be convened in the near future.

Minute no. 251 - Councillor Reports
Councillor D Snaith reported that NRW had expressed concerns regarding flooding from the removal of trees on land adjacent to Tumble park.
Cllr Snaith also reported that double yellow lines at Heol Nant, Llannon are not being adhered to. **Resolved to** refer the matter to the Police at the PACT meeting.

Meeting ended at 9.30pm

Signed ..... Date .....
Chairman

Cofnod rhif 248 – Comisiynydd Gwybodaeth – Diogelu Data
Roedd y Cyngor wedi derbyn nodyn atgoffa i adnewyddu'r ffi uchod. Penderfynwyd adnewyddu'r ffi.

Cofnod rhif 249 – Safleoedd Ymgeisiol – Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)

Roedd y Cyngor wedi derbyn gwybodaeth bod safleoedd ymgeisiol y CDLl wedi'u cyhoeddi, a bod yr ymgynghoriad yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd. **Penderfynwyd** trefnu cyfarfod arbennig i ystyried y safleoedd ymgeisiol.

Cofnod rhif 250 – Pwyllgor y Neuadd
Cytunwyd trefnu cyfarfod o Bwyllgor y Neuadd yn y dyfodol agos.

Cofnod rhif 251 – Adroddiadau'r Cynghorwyr
Dywedodd y Cynghorydd D Snaith bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mynegi pryderon ynghylch llifogydd ar ôl i goed cael eu tynnu i ffwrdd o dir ger Parc y Tymbl. Yn ychwanegol, dywedodd y Cynghorydd Snaith nad oedd pobl yn cymryd sylw o'r llinellau melyn dwbl yn Heol Nant, Llannon. **Penderfynwyd** cyfeirio'r mater at sylw'r Heddlu yn y cyfarfod PACT.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30yh

Llofnod ..... Dyddiad .....
Cadeirydd